IBO IB DIPLOMA PROGRAMME
PROGRAMME DU DIPLÔME DU BI
PROGRAMA DEL DIPLOMA DEL BI

M03/256/H(1)T

**WELSH B – HIGHER LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS B – NIVEAU SUPÉRIEUR – ÉPREUVE 1**
**GALÉS B – NIVEL SUPERIOR – PRUEBA 1**

Thursday 8 May 2003 (afternoon)
Jeudi 8 mai 2003 (après-midi)
Jueves 8 de mayo de 2003 (tarde)

1 h 30 m

---

TEXT BOOKLET – INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this booklet until instructed to do so.
- This booklet contains all of the texts required for Paper 1 (Text handling).
- Answer the questions in the Question and Answer Booklet provided.


LIVRET DE TEXTES – INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Ne pas ouvrir ce livret avant d'y être autorisé.
- Ce livret contient tous les textes nécessaires à l'épreuve 1 (Lecture interactive).
- Répondre à toutes les questions dans le livret de questions et réponses.

CUADERNO DE TEXTOS – INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS


- No abra este cuaderno hasta que se lo autoricen.
- Este cuaderno contiene todos los textos requeridos para la Prueba 1 (Manejo y comprensión de textos).
- Conteste todas las preguntas en el cuaderno de preguntas y respuestas.

## TESTUN A — PROFIAD YR YMWELYDD




Bron canrif wedi ei sefydlu, fe fydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gweld un o'r newidiadau mwyaf yn ei hanes. Ym mis Gorffennaf 2001, fe ddyfarnodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri grant o £2.4m i'r Llyfrgell tuag at brosiect cyffrous Profiad yr Ymwelydd. Mae hyn yn ychwanegol at £1m gan y Cynulliad Cenedlaethol ac £1.9m o'n cronfeydd canolog ni.

**BETH SY'N NEWYDD?**
Rhwng Hydref 2001 a Phasg 2004 fe fydd y Llyfrgell Genedlaethol yn gwneud newidiadau mawr i sicrhau ei bod yn dod â'r byd i Gymru a Chymru i'r byd.



| | |
|---|---|
| Haf 2002 | Agor Bwyty a Siop newydd<br>Penodi staff i'r gwasanaeth Addysg newydd. Mynedfa newydd i'r Llyfrgell ar y llawr isaf, addas i'r anabl.<br><br>Agor yr Ystafell Addysg amlbwrpas i ddal 30 o bobl.<br>Agor ardal amlddefnydd ar gyfer digwyddiadau creadigol.<br>Agor arddangosfa amlgyfrwng Byd y Llyfrgell Genedlaethol. |
| Gaeaf 2003 | Agor Awditoriwm newydd i ddal 100 o bobl gydag adnoddau cynhadledd, cyfieithu ar y pryd, taflunydd 16 mm a 35 mm a mynediad cadair olwyn.<br>Lleoliad delfrydol i ddangos peth o'r 200 000 awr o ffilm, teledu a sain sy'n rhan o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru a fydd hefyd yn cael ei lleoli yn y Llyfrgell. |



**Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL A CHI**
**Addysg** – bydd ein harddangosfeydd yn cydredeg â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd yr Ystafell Addysg newydd yn fan amlbwrpas a defnyddiol ar gyfer dosbarthiadau ysgolion neu gyfarfodydd.

**Cynadleddau** – gyda'r Awditoriwm newydd bydd y Llyfrgell yn ganolfan wych i gynadleddau o bob math.

**Bwyty** – fe fydd y Bwyty newydd yn cynnig golwg dros dref Aberystwyth a Bae Ceredigion.

**Arddangosfeydd** – ceir dau fan arddangos newydd – yn ymyl y fynedfa newydd ar y llawr isaf ac uwchben yr Awditoriwm, i ddeunydd sensitif.

**Mynedfa** – er mwyn hwyluso ymweliadau â'r Llyfrgell fe fydd mynedfa newydd ar y llawr isaf a fydd yn caniatáu i ymwelwyr fynd yn syth i arddangosfa Byd y Llyfrgell Genedlaethol, y Bwyty, y Siop a'r Awditoriwm.

**Gwybodaeth bellach:**
Swyddog Marchnata LLGC, +44 (0) 1970 632902 holi@llgc.org.uk
Am y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau newydd ewch i'r wefan: www.llgc.org.uk/dacy/dacy_c006.htm

LLGC NLW
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU

**TESTUN B — DARLLEN**

# DARLLEN

**A:** Mae siâp du fel hyn yn dynodi sŵn.
Mae siâp du fel hyn yn air yn ein hiaith.

**AT:** Os chwanega' i ato siâp arall, fel hyn,
Mae'r sŵn ac mae'r gair yna'n newid.

**MAT:** Os rho' i ato siâp eto, daw i fod yn fy mhen
Sŵn arall, gair arall - rwy'n darllen.

Y mae siapiau fel hyn ar dudalennau
Yn troi yn eiriau, ac yna'n frawddegau
Sy'n gallu cynnwys y byd, y bydysawd a'u pethau,
A dychmygu i fod greadigaethau fyrddiynnau:

**Cymerwch un gyda dŵr dair gwaith y dydd.**

**Da fyd im yw dyfod Mai.**

**Fel rhosyn coch ydyw 'Nghariad.**

**Duw cariad yw.**

**Dyma sut i agor y Ffenestr Dogfennau.**


**Yr ydym ni 'run defnydd â'n breuddwydion.**

**Wyf Angau'n awr, difodwr bydoedd.**

Mae siapiau du ar dudalen wen
Yn troi'n ystyron dirifedi yn fy mhen:
Rwy'n darllen, ac am hynny rwy'n bod.

Gwyn Thomas

## TESTUN C — NEWID BYD, NEWID MEDDWL



Wyth o'r gloch bore Llun, Gorffennaf 22, a'r awyren yn glanio ym maes awyr bychan Entebbe yn Uganda. Dyma'r tro cynta' i mi fentro i wlad bell – a dweud y gwir, dyma'r tro cynta' i mi hedfan mewn awyren!

Fe saif Entebbe ar lan Llyn Fictoria, un o lynnoedd mwya'r byd. Mae Kampala, prifddinas Uganda, rhyw awr i ffwrdd, ac roedd y gwres yn llethol, er ei bod hi mor gynnar yn y bore.

Am bump wythnos, ro'n i'n mynd i weithio mewn ysgol yn ardal Masindi – tre' yng ngogledd orllewin y wlad, tua 200km (pedair awr mewn bws) o Kampala.

Y syniad oedd i ni fyw a gweithio yn y gymuned. Roedd y cynllun yma'n apelio ata' i oherwydd y bydden i'n cael cyfle i aros gyda theulu o'r gymuned. Oherwydd hynny, fe fyddai'r profiad yn un gwahanol i brofiad ymwelydd arferol.

Fe ges i fy nodi i fyw a gweithio ym mhentre' bach Nyantonzi, gyda rhyw 200 o bobol yn byw yno. Pentre' traddodiadol gydag ambell i dŷ brics ar ochr y ffordd. Mae mwyafrif y tai wedi eu gwneud ma's o fwd a gwellt.

Roedd eglwys, capel a siop nwyddau sylfaenol yn y pentre', ynghyd â theiliwr yn gwerthu a chynhyrchu dillad. Fi oedd yr unig berson croenwyn yn y pentre', a dyna pam fod y bobol leol wedi fy medyddio i'n *"muzungu"* (sef 'dyn gwyn' yn yr iaith Kswahili).

Am y pum wythnos nesa', braint oedd cael byw gyda theulu Issac, mewn tŷ brics â tho sinc heb fod yn bell o'r heol. Roedd cyfarfod y teulu am y tro cynta' yn brofiad bythgofiadwy. Mae e'n deulu mawr, gyda thua 30 o bobol yn byw gyda'i gilydd.

Ar y dechrau, do'n i ddim yn siŵr iawn o statws pawb. O'r cychwyn cynta', roedd hi'n amlwg bod y gwragedd a'r merched yn edrych ar ôl y dynion. Roedd hi'n sefyllfa anodd i'w deall y diwrnodau cynta', ond cyn pen dim, ro'n i wedi cyfarwyddo â'r ffordd Affricanaidd o fyw.

Roedd Issac - y tad - yn mynd allan i weithio ar y tir. Roedd y gwragedd yn gweithio yn y tŷ yn y bore ac yna'n mynd allan i helpu ar y tir yn y pnawn.

### Yr ysgol

Profiad anhygoel oedd gweithio yn Ysgol Gynradd Nyantonzi - ysgol wedi ei chodi gyda briciau, mwd a tho sinc, yng nghysgod Mynydd Nyantonzi. Dim drysau na ffenestri, dim ond tyllau agored, a'r awyr fel pe'n rhan o'r dosbarthiadau. Roedd bywyd gwyllt yn dod mewn ac allan o'r dosbarth fel y mynnent!

Dosbarthiadau syml iawn oedd ganddyn nhw. Hen ddesgiau yn debyg i'r rhai sydd yn San Ffagan, a bwrdd du. Roedd waliau'r stafelloedd yn hollol foel.

Dim ond ers 1000 o ddiwrnodau y mae'r system addysg newydd yn Uganda wedi bod yn weithredol ac, wrth ystyried hynny, mae'n rhyfeddol fod yr ysgol yn bodoli o gwbwl. Mae'r plant yn dod i'r ysgol yn chwech oed, ac ar ddiwedd bob blwyddyn, maen nhw'n sefyll arholiad.

Os yw plentyn yn methu'r arholiad, yna maen nhw'n gorfod ail-eistedd y flwyddyn. Dyna pam y mae yna amrywiaeth eang yn oedrannau'r plant o fewn y dosbarth. Yn nosbarth P7 (dosbarth chwech yng Nghymru), roedd y plentyn ieuenga'n 11 oed a'r hyna' yn 17.

Cwricwlwm newydd iawn sy'n cael ei ddilyn yn yr ysgol - cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer holl ysgolion Uganda. Pynciau fel Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth oedd y pynciau craidd. Mae'r plant yn cael gwersi mewn ieithoedd gwahanol fel Kswahili, Rinioro a Lugwara, ynghyd â gwersi ymarfer corff a chrefft. Mae pob plentyn hefyd yn dysgu sut y mae trin y tir a chynhyrchu cnydau.

Mae'r plant yn gwneud llawer mwy o bethau ymarferol na phlant Cymru. Pob dydd, fe fyddai pob plentyn yn mynd allan i 'ardd' yr ysgol i drin y 15 acer o dir. Pob un yn plannu, troi'r tir, ac yn torri'r gwair rhyw ben pob dydd, a hynny pan oedd yr haul yn chwilboeth. Mewn lle mor wledig, mae tyfu cnydau yn gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng byw a marw.

## Dysgu am Gymru

Fe dreuliais yr wythnos gynta' yn gwylio'r athrawon yno'n dysgu. Yn ystod yr ail wythnos, fe ges i ddechrau dysgu rhai o'r dosbarthiadau. Roedd e'n brofiad newydd i'r plant a finnau – cofiwch, dyma'r tro cynta' iddyn nhw weld person croenwyn!

Er i mi ddysgu cymaint o'u dulliau nhw o ddysgu roedd hi'n amlwg fod y staff yn awyddus iawn i ddysgu technegau newydd. Roedden nhw'n fy holi i'n drylwyr iawn am y profiad o ddysgu yng Nghymru.

Roedd clywed bod iaith arall heblaw'r Saesneg yn cael ei siarad ym Mhrydain yn sioc mawr iddyn nhw. Doedd dim syniad gyda nhw fod Cymru neu'r iaith Gymraeg yn bodoli.

Roedd Prifathro'r ysgol yn awyddus iawn i mi ddysgu peth Cymraeg i'r plant, ac erbyn diwedd yr ail wythnos, roedd y rhan fwya' ohonyn nhw wedi dysgu rhai geiriau Cymraeg. Erbyn y drydedd wythnos, roedd pob un o'r plant yn fy nghyfarch yn y bore trwy ddweud "bore da".

Bob bore, roedd y plant yn ymgynnull y tu allan i'r dosbarthiadau i ganu'r anthem genedlaethol a chodi baner Uganda.

Wrth gyrraedd yr ysgol ar y bore cyntaf gofynnodd y prifathro i mi am faner Cymru. Profiad emosiynol iawn oedd gweld y Ddraig Goch yn cael ei chodi ar y polyn, tra bod yr holl ysgol yn canu anthem genedlaethol Uganda.

Fe fu'r faner yn destun trafod gan bob ymwelydd a ddaeth i'r ysgol, ac roedd pawb eisiau gwybod yr hanes.


Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd gweld rhagbrofion gŵyl gerddoriaeth a ganhaliwyd yn yr ysgol. Fe ddaeth chwech o ysgolion cyfagos i gystadlu mewn deg o gystadleuthau oedd yn cynnwys dawnsiau traddodiadol, canu sol-ffa, adrodd unigol a grwpiau offerynnol,

Roedd y plant i gyd yn hyderus iawn ac wrth eu bodd yn perfformio o flaen cynulleidfa enfawr. Byddai enillwyr pob cystadleuaeth yn mynd ymlaen i gystadleuaeth ranbarthol. Roedd y cyfan mor debyg i ragbrofion Eisteddfod yr Urdd!

## Gadael gyda gwersi

Anodd iawn oedd edrych ar yr ysgol a dweud wrth yr athrawon, "Dyma be' ddylech chi ei wneud" oherwydd roedd hi'n wyrth fod yr ysgol yn bod ac yn gweithredu yn y lle cynta'. Mae'r athrawon a'r holl blant yn cerdded i'r ysgol yn droednoeth bob dydd o wahanol bellteroedd. I mi, mae'n rhyfeddol.

Wrth ddychwelyd i ddysgu i Ysgol Gynradd Gymraeg Gilfach Fargoed y mis hwn, dw i'n teimlo bod problemau Cymru yn rhai bychan iawn wrth feddwl am y problemau a welais i yn Uganda.



Dw i'n edrych ar fywyd mewn ffordd hollol wahanol bellach. Mae pethau fel prynu car newydd, prynu ffôn symudol, neu fynd allan dros y penwythnos yn ymddangos yn ddibwys iawn ar ôl bod allan yn Uganda am bum wythnos.

Fe fydden i'n cynghori unrhyw athro neu athrawes i drio cael profiad tebyg – wna' i byth ei anghofio!

**Ioan Dyer**

**TESTUN CH — NEGES ODDI WRTH EICH MEDDYG TEULU**

**Pennawd 1**

Dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd mawr iawn i lwyth gwaith eich meddyg teulu, yn arbennig gydag ymweliadau â chartrefi y tu allan i oriau'r feddygfa. Mae hyn wedi datblygu'n boen meddwl ac yn straen, ac o ganlyniad cytunodd y llywodraeth i newid y trefniadau ymweliadau nos ac ymweliadau â chartrefi. Mae'r trefniadau newydd yn pwysleisio mai i gleifion nad ydynt yn ddigon iach i ymweld â'r feddygfa y mae ymweliadau cartref ac mai ar gyfer achosion meddygol brys yn unig y mae ymweliadau nos ac ymweliadau y tu allan i oriau'r feddygfa.

**Pennawd 2**

Y tu allan i oriau'r feddygfa, y meddyg, y dirprwy neu'r nyrs sydd i benderfynu, ar sail yr hyn a ddywedwch wrthynt am eich cyflwr, os a phryd y bydd angen i chi gael eich gweld gan feddyg a lle y cewch eich gweld.

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor meddygol i chi dros y ffôn yn ôl eich disgrifiad o'ch symtomau meddygol, neu:

- y gofynnir i chi ddod i'r feddygfa neu'r ganolfan gofal brys ar unwaith
- y gofynnir i chi fynychu'r feddygfa pan fydd ar agor nesaf
- yr ymwelir â chi yn eich cartref neu eich atgyfeirio i'r ysbyty yn uniongyrchol

Mae'n bwysig i gleifion gofio y gall meddyg weld sawl claf mewn meddygfa neu glinig yn yr amser a gymer i wneud un ymweliad cartref. Er mwyn cadw'r system frys mae'n rhaid i'ch meddyg teulu roi blaenoriaethau meddygol yn gyntaf, ac mae'n bosibl na fydd modd iddo ystyried amgylchiadau cymdeithasol y claf bellach, megis anawsterau trafnidiaeth neu broblemau gwarchod plant, fel rhesymau dros ymweliadau cartref.

Mae ceisiadau am ymweliadau cartref dan amgylchiadau o'r fath yn lleihau'r amser y bydd eich meddyg teulu ar gael i ddelio ag achosion brys.

**YSTYRIWCH CYN GALW.**
**DIM OND AR GYFER ACHOSION MEDDYGOL BRYS**
**MAE'R GWASANAETHAU Y TU ALLAN I ORIAU'R FEDDYGFA**

**Pennawd 3**

Os cewch eich taro'n wael tra bydd meddygfa eich meddyg ar gau, gofynnwch i chi eich hunan a yw hi'n ddiogel disgwyl nes bydd y feddygfa'n ail-agor cyn derbyn sylw meddygol. Os ydych yn teimlo nad fyddai'n ddoeth aros, neu os nad ydych yn siŵr, ffoniwch rif brys eich meddyg a bydd meddyg neu berson arall wedi ei hyfforddi'n briodol yn trafod gyda chi lle a phryd y dylech dderbyn sylw meddygol.

**Pennawd 4**

Gofynnir i lawer o feddygon ymweld â phobl gartref y tu allan i oriau'r feddygfa, er bod rheini'n ddigon iach i deithio i'r feddygfa neu i ganolfan gofal brys mewn gwirionedd. Efallai na fyddwch yn ddigon da i gerdded neu ddal bws i fynd i weld eich meddyg, ond bydd y rhan fwyaf o bobl yn ddigon da i deithio mewn car. Pan fydd yn bosibl, dylech ofyn i ffrindiau, cymdogion neu berthnasau am bas (lifft), neu gymryd tacsi os na allwch ganfod ffordd arall o gyrraedd meddygfa eich meddyg neu ganolfan gofal brys.

**Pennawd 5**

Mewn achosion difrifol iawn ***[ – enghraifft – ]*** gwaedu difrifol, poen yn y frest sy'n awgrymu trawiad ar y galon, neu ddiffyg anadl difrifol, **[ – 33 – ]** y byddai'n fwy doeth deialu 999 a gofyn am ambiwlans. Mae'r gweithwyr ambiwlans yn darparu gofal brys **[ – 34 – ]** â chludiant chwim i'r ysbyty. Hon yn aml yw'r driniaeth gyflymaf **[ – 35 – ]** all achub bywyd.

Hefyd, mewn achosion o anaf, **[ – 36 – ]** amheuir fod asgwrn wedi ei dorri neu y gallai fod angen pwythau, mae mynd yn syth i'r ysbyty yn aml yn gwneud mwy o synnwyr **[ – 37 – ]** galw eich meddyg teulu, na fydd â'r cyfleusterau o bosibl i ddelio â'r math hwn o broblem.

**Pennawd 6**

Gellir gwella sawl math o salwch cyffredin fel peswch, annwyd, dolur gwddf, pigyn clust a stumog wael gyda meddyginiaeth gartref syml neu foddion fel lleddfwr poen neu foddion arall y mae'n hawdd cael gafael arnynt gan eich fferyllydd lleol, a fydd hefyd yn barod i roi cyngor i chi.

---